**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO** |
| **PWNC:** | **PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO - DYDD MERCHER, 9 MEHEFIN 2021 DYDD MERCHER, 9 MEHEFIN 2021** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

PRESENNOL: J. HILL (CADEIRYDD)

Cynghorwyr:
G. A. Davies (Is-gadeirydd)
M. Cross
M. Cook
P. Edwards
K. Hayden
S. Healy
W. Hodgins
J. C. Morgan
G. Paulsen
K. Rowson
B. Willis
C. Meredith

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd L. Parsons a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiad dilynol o fuddiant:<br>Cynghorydd G. Paulsen – Eitem Rhif 5 Cronfa Adnewyddu Cymunedol (CRF) | |
| No. 4 | **<u>AMSER CYFARFODYDD Y DYFODOL</u>**<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor y bydd cyfarfodydd y dyfodol yn parhau i gychwyn am 10.00 a.m. | |
| No. 5 | **<u>GWYBODAETH EITHRIEDIG</u>**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiadau dilynol sydd ym marn y Swyddog Priodol yn eitemau eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rhesymau am y penderfyniadau am yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol).<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd). | |
| No. 6 | **<u>CRONFA ADNEWYDDU CYMUNEDOL (CRF)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Cymunedau Cysylltiedig yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y Gronfa Adnewyddu Cymunedol a'r broses asesu prosiectau lleol gysylltiedig. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r rhestr fer o brosiectau arfaethedig a fyddai'n ffurfio cais CRF Blaenau Gwent i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac yn argymell fod y Pwyllgor Gweithredol yn rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i ymgyfraniad CBSBG yn y Cynnig Prosiect Cyflogadwyedd Rhanbarthol (CELT). Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad yng nghyswllt Cronfa Codi'r Gwastad y Deyrnas Unedig a pharatoi cyflwyniad y Cyngor, a bydd adroddiad pellach ar fanylion y cynnig hwn.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu'r pwyntiau allweddol ynddo. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd Aelod os bydd cyfle i weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i efallai ddod â buddsoddiad i stadau tai y Fwrdeistref.<br><br>Esboniodd y Swyddog fod yr amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn heriol gan fod yn rhaid eu cyflwyno erbyn 20 Mai 202. Byddai LCC wedi cael cyfle i gyflwyno cynigion ond ni dderbyniwyd unrhyw rai.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn pellach gan yr Aelod, dywedodd y Swyddog bod y cyllid ar gael ar gyfer prosiectau peilot i'w cyflwyno o fewn 2021/22. Byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedyn yn dysgu o'r prosiectau hyn ac yn profi'r gwahanol ddulliau gweithredu ar sail 1 flwyddyn.<br><br>Gofynnodd Aelod os oedd yn bosibl cyfuno rhai o'r prosiectau a restrir yn yr adroddiad. Dywedodd y Swyddog y byddai lan i bartneriaid unigolion i ddechrau'r trafodaethau hynny ond yn anffodus nid yw'r amserlenni tyn yn hwyluso hynny. Fe wnaeth y Swyddog hefyd gadarnhau fod pob prosiect yn cael eu sgorio ar yr un meini prawf yn seiliedig ar flaenoriaethau strategol lleol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y ffigur a amlygir yn adran 2.18 yr adroddiad a gofynnodd sut y caiff hyn ei ddyrannu. Cyfeiriodd hefyd at CELT a holodd am swyddogaethau'r grŵp a chynrychiolaeth y Cyngor.<br><br>Wedyn cyfeiriodd at y ffaith y byddai prosiectau llwyddiannus yn derbyn cyllid mewn dwy ddogn, a holodd os byddai unrhyw oblygiadau cyllido ar gyfer y Cyngor wrth dynnu lawr ail ddogn cyllid pe na fyddai'r prosiect yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylid.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y defnyddir y cyllid a ddynodir yn adran 2.18 yr adroddiad i gefnogi datblygiad y CRF. Yng nghyswllt CELT, dywedodd fod hyn yn deillio o waith sy'n mynd rhagddo ar draws y rhanbarth ac iddo gael ei sefydlu i edrych ar raglenni cyflogadwyedd. Os cymeradwyir yr adroddiad, byddai'r Cyngor yn eistedd ar y grŵp hwnnw ac yn sicrhau y caiff trafodaethau ar lefel rhanbarthol eu hatgynhyrchu yn lleol.<br><br>Cadarnhaodd Arweinydd Tîm Cymunedau Cysylltiedig y caiff cynllun ei roi ar waith i ddiogelu risg peidio cyflawni prosiect i atal ader unrhyw arian. | |

Mewn ymateb i sylw gan Aelod am ymgysylltu gyda busnesau lleol, dywedodd y Swyddog fod hwn yn un o'r llu o gronfeydd a weinyddir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf mewn ymateb i bandemig Covid. Cadarnhaodd fod Swyddogion wedi parhau i ymgysylltu â'r gymuned fusnes a'u cefnogi, ac er y cynhaliwyd y gweithgaredd hwn drwy Microsoft Teams oherwydd cyfyngiadau Covid, roedd yn hyderus y bu'r cymorth a roddwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn fuddiol i fusnesau lleol.

Cyfeiriodd Aelod at adran 5.2.3 yr adroddiad, sef adnoddau staff, a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y caiff darn o waith ei wneud i benderfynu pa adnoddau sydd eu hangen. Pan fydd y cam cyntaf wedi ei gwblhau ac y cytunwyd ar brosiectau targed, dywedodd y cynhelid trafodaethau wedyn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yng nghyswllt trefniadau cyflawni ar gyfer prosiectau, ac ar hyn o bryd byddai gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o faint o adnoddau sydd eu hangen.

Dilynodd trafodaeth pan ofynnodd Aelod os bwriedir gofyn am farn Aelodau ar brosiectau a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol pan sefydlwyd y CRF mai'r cam nesaf fyddai ymgysylltu ag Aelodau am opsiynau neilltuol ar gyfer Cronfa Codi'r Gwastad.

CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a chefnogi Opsiwn 2, sef:-

- Bod y Pwyllgor Craffu yn argymell cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gweithredol o'r rhestr fer o brosiectau arfaethedig a fyddai'n ffurfio cais CRF Blaenau Gwent i Lywodraeth Unedig; a

- Bod y Pwyllgor Craffu yn argymell cymeradwyaeth i'r Pwyllgor Gweithredol gymryd rhan yn CELT.